Gwirfoddoli Dros Gadwriaeth

Eileen Hird

Gwirfoddoli canol wythnos i Ymddiriedolaeth Gwirfoddolwyr Cadwraeth Prydain (BTCV - British Trust for Conservation Volunteers)

Y BTCV yw corff cadwraeth mwyaf Prydain ac mae eu swyddfeydd yn gweithredu dros bob rhanbarth ac ardal yn y Deyrnas Unedig. Daw gwirfoddolwyr o bob lliw a llun i gymryd rhan, o bob cenedl a grŵp ethnig, yn abl ac anabl, yn ddynion ac yn ferched, o 16 hyd at 80 mlwydd oed. Mae hyfforddiant trwyadl yn sicrhau safon uchel o waith a diogelwch. Mae'r BTCV yn trefnu gwyliau ym Mhrydain ac yn fyd-eang - ond mwy am hynny y tro nesaf!

Mae Eileen Hird yn cynorthwyo i arwain grŵp o wirfoddolwyr y BTCV sydd yn cyfarfod a gweithio yng nghanol yr wythnos yng Ngogledd - Ddwyrain Cymru. Bellach, mae hi'n nos Fercher ac yn bryd edrych yn ôl ar weithgareddau'r dydd. Dyma'i darlun hi o ddiwrnod allan ac o'r tasgau y byddant yn eu cyflawni dros gyfnod.

Mae grŵp ohonom, pob un â'i becyn cinio, yn aros am y bws-mini newydd sbon, gyda seddi yn wynebu ymlaen a gwregysau diogelwch. Ys gwn i pa un o'r gweithwyr rheolaidd fydd yn galw draw heddiw? Mae yna wyth ohonom, gan gynnwys dau newydd, a gwnaf fy ngorau i wneud iddyn nhw deimlo'n gartrefol.

Wedi cyrraedd y traeth dadlwythir y celfi ac rydym yn cael sgwrs ar sut i'w cludo a'u defnyddio'n ddiogel ac yn y blaen.

Cawn wybod y rheswm dros waith y dydd: mae'r twyni tywod wedi eu herydu gan ymwelwyr a'n gorchwyl ni yw cymryd camau i'w sefydlogi. Ein gorchwyl cyntaf fydd codi pyst trymion ac yna gosod ffens o bren castan arnyn nhw.

Mae'r gwynt yn gostwng ond daw'r glaw felly rydym yn diflannu i'r bws a chawn goffi neu de a bisgedi cyn dechrau. Cyn bo hir rydym wedi cwblhau'r ffensio ac yna rydym yn ailgylchu coed Nadolig. Gwneir hyn drwy gloddio ffos hir a chul a gosod y coed ar ongl o oddeutu 45 gradd cyn llenwi'r ffos â thywod. Mae'n edrych yn naturiol heblaw am ambell i addurn a adawyd ar y coed!

Ar y daith yn ôl cawn wybod y byddwn yn gweithio ym Modelwyddan yr wythnos nesaf. Dyma le poblogaidd i weithio oherwydd yma gellir gwerthfawrogi canlyniadau ymdrechion y BTCV dros amryw o flynyddoedd. Erbyn hyn mae bylbau brodorol y gwanwyn yn blodeuo yn hytrach na'r llus yr eira estron yn y berllan Fictoriaidd. Bydd ein gorchwylion yn cynnwys cwympo coed a chlirio prysgwydd. Mae rhywun yn awgrymu bod angen chwynnu blagur cynnar y gwanwyn yn y Llecyn Gloÿnnod Byw.

Bydd rhai ohonom yn bwyta ein cinio yn y guddfan adar tra'n gwylio amrywiaeth eang o adar yn bwydo ar y cnau a'r hadau a osodwyd yno gan y BTCV.

Yn anffodus mae'r gwiwerod yn dychryn yr adar yn aml ac yn dwyn eu bwyd. Yn yr wythnosau canlynol mae'n bosibl y byddwn yn creu gardd byd natur mewn ysgol, clirio pwll, codi clawdd sych, plygu gwrych, ac adeiladu neu drwsio llwybr. Mae'r gorchwylion yn ddiddiwedd!

Beth bynnag a gynigir, rydw i wrth fy modd â'r gwaith. Mae digon o hwyl, awyr iach a chwmni da, heb sôn am gyfrannu at les yr amgylchedd, yn ei wneud yn hynod o werth chweil.

Am wybodaeth am y BTCV yng Ngogledd Cymru, ffoniwch 01978 261538.
Am wybodaeth gyffredinol am y BTCV ffoniwch 01491 821600, e-bostiwch information@btcv.org.uk neu ewch i www.btcv.org.uk

BTCV I CHI?

Hoffech chi wneud y math hwn o waith? Hyd yn oed os nad ydych chi eto'n ddigon hen i ymuno â'r BTCV, gallwch edrych ymlaen a chynllunio at y dyfodol.

Mae sôn yn y darn am dasgau gwahanol e.e. sefydlogi twyni tywod, creu gerddi byd natur mewn ysgolion, clirio pwll ac ati.

1. Pa rai o'r tasgau hyn fyddai'n debyg o apelio atoch chi, a pham?

   Gyda'ch cyd-ddisgyblion, ystyriwch a thrafodwch y pwyntiau canlynol:
2. Wyddoch chi am ryw nodwedd yn eich hardal chi sy'n ei anharddu a thynnu oddi wrth ei hapêl?
3. Oes 'na rywbeth sydd yn dirywio ac mewn perygl oherwydd ei oedran neu esgeulustod?
4. Oes 'na rywbeth hynod a gwerthfawr fyddai'n haeddu sylw a chymorth arbennig?

Gallwch hyd yn oed gysylltu gyda'ch cyngor lleol neu'r BTCV ei hun i gynnig awgrymiadau a syniadau - gyda chyngor a chyfarwyddyd oedolion fel rhieni, arweinwyr grŵp ieuenctid neu athrawon ysgol, wrth gwrs.

> Mae llythyr ffurfiol, cywir yn creu argraff dda bob amser, felly cofiwch am reolau llunio llythyr o'r math hwnnw. Gallech ddrafftio'r llythyr mewn llawysgrifen daclus ar bapur neu ei deipio ar gyfrifiadur.